

WILLIAMS, THOMAS ('Gwilym Morganwg'; 1778 - 1835), bardd

Enw: Thomas Williams
Ffugenw: Gwilym Morganwg
Dyddiad geni: 1778
Dyddiad marw: 1835
Plentyn: Taliesin Williams
Rhiant: William Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Thomas John Morgan

Ganwyd ym Melin Gallau, plwyf Llanddety, sir Frycheiniog, 20 Tachwedd 1778, mab William Thomas. Symudodd y teulu tua 1781 i fyw ym Melin Pontycapel, Cefncoedcymwr. Dywed llythyr **Taliesin ab Iolo** iddo ddechrau gweithio tua saith oed mewn lefel lo a oedd gan ei dad. Ni ddywedir fawr am yr addysg fore a gafodd ond iddo ddechrau llenyddia pan oedd yn llanc ifanc. Pan oedd tua 27 aeth i Lundain, ond rhyw chwe mis y bu yno. Pan ddychwelodd aeth i weithio o dan ofal Rhys, mab **Hywel Rhys**. Gellir casglu mai'r ddysg a dderbyniodd gan ei feistr a'i cymhwysodd ef i ysgrifennu (mewn cydweithrediad a'r **Dr. Jenkins**, Hengoed) y fersiwn cyntaf ar Y *Parthysyllydd*, 1815-6. Dywed **Ioan Emlyn** yn ei ragymadrodd i gyfrol gyntaf Y *Parthysyllydd*, 1870, iddo 'ddyfynu yn helaeth o'r hen *Barthysyllydd*, cydwaith yr enwogion hynny, **Dr. Jenkins**, Hengoed, a Mr. Thomas Williams (Gwilym Morganwg); ac yn y rhagymadrodd i'r ail gyfrol (1875) dywed **Spinther** mai 'gair o'u bathiad hwy yw yr enw "*Parthysyllydd*". Ni ddywed llythyr **Taliesin ab Iolo** pa bryd yn hollol y symudodd Gwilym Morganwg i Bontypridd i gadw tafarn, ond yr oedd yno yn 1813. Ceir copi yn *Awen y Maen Chwyf*, 17, o lythyr a ysgrifennodd yn Rhagfyr 1813 at gyhoeddwr *Seren Gomer* yn dymuno'n dda i'r cylchgrawn ac yn cynnig barddoniaeth i'w chyhoeddi yn y *Seren*. Bu farw ym Mhontypridd 13 Awst 1835, ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanfabon.

Dengys dwy gyfrol a gyhoeddwyd ym Merthyr, y gyntaf yn 1824 a'r ail yn, 1826 fywiogrwydd bywyd llenyddol y cylch yn chwarter cyntaf y ganrif, beth oedd nodweddion ac ansawdd y gweithgarwch llenyddol yma, a beth oedd pwysigrwydd Gwilym Morganwg, sef *Llais Awen Gwent a Morganwg ... a gyhoeddwyd gan J. Davies* (Brychan), 1824; ac *Awenyddion Morganwg, neu Farddoniaeth Cadair Merthyr Tudful ym mraint Cadair a Gorsedd Pendefigaeth Morganwg a Gwent ...* 1826. Yr oedd gwaith Gwilym Morganwg eisoes wedi gweld golau dydd cyn hyn: ymhlith y cyfansoddiadau a gyflwynwyd i eisteddfod Caerfyrddin, 1819, ac a gyhoeddwyd yn ddiweddarach o dan y teitl *Awen Dyfed* (1822), cynhwyswyd ei awdl ef 'Ar farwolaeth y godidog flaeawr milwraidd, Syr Thomas Picton', hynny drwy ymyrraeth **Iolo Morganwg**, gan i Gwilym Morganwg dorri rheolau'r gystadleuaeth drwy gynnwys ei enw (yn hytrach na ffugenw) ar waelod ei waith. Yn y portread o yrfa **Picton**, cyfeirir at y cyfnod a dreuliodd yn India'r Gorllewin, a hynny gan feio eraill, fe ymddengys, am yr anawsterau a ddaeth i'w ran ar ynys Trinidad ('Ai'r gwr glew i'r Gorllewin./Trwy glod (er trallod) i'w trin./Cadwodd ei glod hynod-wiw/Er twyllwyr, bradwyr, a briw'). Syndod yw gweld Iolo Morganwg yn cefnogi cerdd ar y testun hwn, a cherdd sy'n benodol yn glastwreiddio'r cyhuddiadau a wynebodd Picton am ei gamwri yn Trinidad. Gan adlewyrchu'r berthynas gadarnhaol a awgrymir gan y nawdd hwn, y mae'n amlwg fod syniadau Iolo, yn eu tro, yn fawr iawn eu dylanwad ar Gwilym Morgannwg, yntau. Ar tt. 7-8 o *Llais Awen* ceir can Gwilym Morgannwg, 'Heddwch', ... ' ac a ddatganwyd yng Ngorsedd Morganwg ar y Maen Chwyf, ar yr ail Gyfadgyrch yn yr Alban Hefin, yn y flwyddyn 1814.' 'He and myself were initiated into the arcana of Druidism by my father,' medd **ab Iolo**, a geilw ef hefyd 'my only brother druid.' Yn y gyfrol arall adroddir hanes pedwaredd eisteddfod y gymdeithas gan Gwilym Morganwg, a gwelir ei fod yn un o'r beirniaid. Y peth diddorol yn ei feirniadaeth yw ei wrthwynebiad pendant i'r mesur diodl. Ar tt. 63-4, ceir hanes y bumed eisteddfod a gynhaliwyd ar ddydd 'Gwyl yr Alban Hefin, 1825.' Yn hon y gwobrwyydd awdl 'Gwilym Morganwg' ar y testun, 'Dinystyr Castell Caerphili.' Dywed **ab Iolo** iddo ennill yn eisteddfod Caerdydd, 1834, am feddargraff i'w rhoi ar garreg fedd **Iolo Morganwg**, ac iddo adael tlws arian ar ei ôl a enillodd am ganu gyda'r tannau. Cyhoeddwyd ei weithiau yn 1890, *Awen y Maen Chwyf*, ar draul ei fab Taliesin Williams. Prin yw gwerth barddonol y gyfrol, ond y mae ynddi rai pethau diddorol, megis 'cerddi etholiad'; ac nid yw'r cerddi serch ar fesurau alawol heb ryw gywreinrwydd a dehurwydd. Ond y mae ynddi un peth campus, sef y cywydd marwnad i **Iolo Morganwg**.

Awduron

Yr Athro Thomas John Morgan, (1907 - 1986)

Diwygiwyd gan y tÃ@m golygyddol, 2024

Ffynonellau

Thomas Williams, *Awen y Maen Chwyf yn cynnwys awdlau, cywyddau, caniadau, ac englynion*(Merthyr Tydfil 1890), v - viii, sef copi o lythyr 'Taliesin ab Iolo' yn y *The Merthyr Guardian*, 22 Awst 1835

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 623

Awen Dyfed: sef, awdlau ac englynion a ddanfonwyd i Eisteddfod Caerfyrddin, Gorph.8, 1819; at y rhai y 'chwanegwyd hanes yr eisteddfod (Caerfyrddin 1822), tt. 49-55

Iolo Morganwg at David Saunders (Dafydd Glan Teifi), 15 Mawrth 1823, yn Geraint H. Jenkins, Ffion Mair Jones, David Ceri Jones, *The Correspondence of Iolo Morganwg* (Cardiff 2007), III, t. 647

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Williams

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 53956408

Wikidata: Q13131866

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Morgan, T. J., (1953). WILLIAMS, THOMAS ('Gwilym Morganwg'; 1778 - 1835), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-THO-1778>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government